Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad ar

Cylch Meithrin Llanllwni

Ysgol Gynradd Llanllwni
Pencader
Carmarthenshire
SA39 9DX

Dyddiad yr arolygiad: Medi 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Ynglŷn â Cylch Meithrin Llanllwni

Enw'r lleoliad	Cylch Meithrin Llanllwni
Categori'r gofal a ddarperir	Gofal dydd llawn
Unigolion cofrestredig neu cyfrifol	Nans Davies
Nifer y lleoedd	9
Ystod oedran y plant	2 i 4 oed
Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar	2
Diwrnodau / amseroedd agor	Dydd Llun 8:45yb -3:00yp;Dydd Mawrth – Dydd Gwener 8:45yb-12:15yp
Gwasanaeth Dechrau'n Deg	Oes
Iaith y lleoliad	Cymraeg
Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol	Mae darparwr y gwasanaeth yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg a diwylliannol y bobl.
Dyddiad arolygiad blaenorol AGC ac Estyn ar y cyd	23/05/2024
Dyddiad arolygiad blaenorol AGC yn unig (os yw'n berthnasol)	Hydref 2019
Dyddiad dechrau'r arolygiad	22/09/2026
Gwybodaeth ychwanegol	Nid yw'r adroddiad hwn yn cynnwys gwerthusiad o ddysgu plant tair neu bedair oed nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon yn bresennol adeg yr arolygiad i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

Crynodeb

Thema	Gradd
Lles a Gofal	**Da**
Addysgu, Dysgu, Chwarae a Datblygiad	**Da**
Arweinyddiaeth a Rheolaeth	**Da**

Meysydd a Nodwyd ar Gyfer Gwella

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella yn ystod yr arolygiad hwn.

Argymhellion

Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r lleoliad barhau i wella

A1 Sicrhau profiadau pwrpasol i blant gyfoethogi eu hamwybyddiaeth o'r byd o'u hamgylch ac amrywiaeth diwylliannol.

A2 Ffurfioli prosesau goruchwyliaeth ymarferwyr a gwella cyfleoedd iddynt ddatblygu'n broffesiynol.

Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Prif ganfyddiadau

Lles a Gofal: Da

Mae ymarferwyr yn meithrin awyrgylch croesawgar sy'n cefnogi'r plant yn llwyddiannus wrth iddynt adael eu rhieni a'u gofalwyr. Mae plant yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol gyda ymarferwyr, sy'n eu galluogi i gyrraedd yn hapus ac i ymgartrefu'n gyflym. Maent yn hyderus i fynd at ymarferwyr i chwarae, am gysur neu i ofyn am gymorth, gan eu bod yn gwybod y bydd ymarferwyr yn ymateb yn brydlon i'w hanghenion. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau, er enghraifft, wrth fynd ati i gasglu clustog ar gyfer amser cylch. Mae syniadau'r plant, eu gwaith creadigol a ffotograffau ohonynt yn cael eu harddangos yn effeithiol o gwmpas y lleoliad, sy'n meithrin ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae gan bron bob plentyn lais cryf. Gwnânt ddewisiadau a phenderfyniadau'n hyderus am eu chwarae ac wrth ddefnyddio'r amgylchedd yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn dewis caneuon i ganu a ble hoffent eistedd amser snac. Maent yn mwynhau rhyddid i symud o amgylch yr ardaloedd dysgu ac maent wrth eu boddau yn dewis adnoddau gan fod ganddynt amser a mynediad i'r holl ardaloedd chwarae. Mae dymuniadau'r plant yn cael eu parchu gan ymarferwyr.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ffurfio perthnasoedd cadarnhaol ac yn chwarae'n hapus ochr wrth ochr a'u ffrindiau. Maent yn cychwyn cydweithio a dangos parch at ei gilydd yn ystod eu chwarae, er enghraifft wrth adeiladu tŵr o flociau fesul pâr. Mae ymarferwyr yn siarad â'r plant yn dyner ac yn fwriadus, gan ddefnyddio dulliau cyson ac effeithiol i hybu ymddygiad cadarnhaol. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn ymddwyn yn briodol yn ystod cyfnodau chwarae rhydd ac yn ystod gweithgareddau grŵp. Mae ymarferwyr yn canmol y plant yn rheolaidd am eu hymdrechion, eu parodrwydd i helpu ac am wrando'n dda. Golygai hyn fod llawer o blant yn dechrau deall anghenion eraill ac yn dangos caredigrwydd ac ystyriaeth barchus tuag at eu ffrindiau, er enghraifft wrth dywallt llaeth i'w ffrind amser snac. Mae llawer o blant yn rhannu adnoddau'n dda ac yn dechrau deall sut i gymryd eu tro yn llwyddiannus, er enghraifft trwy gydweithio i rannu eitemau yn y twba tywod a dŵr.

Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda, ac yn casglu gwybodaeth am eu hanghenion a'u hoffterau unigol cyn iddynt gychwyn mynychu. Maent yn sicrhau eu bod yn cwrdd ag anghenion unigol plant, er enghraifft wrth sicrhau mynediad i deganau o ddiddordeb yn yr ardaloedd chwarae. Mae ymarferwyr yn trin pob plentyn gyda thegwch a gofal cytûn. Maent yn gynhwysol iawn wrth sicrhau cyfle cyfartal i bawb, ac mae gweithgareddau fel amser cylch yn cyfrannu'n effeithiol at hyn.

Addysgu, Dysgu, Chwarae a Datblygiad: Da

Mae ymarferwyr yn darparu amgylchedd cynnes a chartrefol sy'n cefnogi lles a sicrwydd emosiynol y plant yn dda. Maent yn dangos dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd chwarae yn natblygiad plant ac yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'u rôl fel oedolion sy'n galluogi. Drwy wrando'n ofalus ar lais y plant, maent yn cynllunio gweithgareddau sy'n cynnal eu chwilfrydedd a brwdfrydedd yn llwyddiannus. Er enghraifft, darperir cyfleodd buddiol i blant archwilio nodweddion lindys gan ddefnyddio chwyddwydrau, taro hoelion pren i wrthrychau wahanol, creu cebabs ffrwythau, a gwasgu ac ymestyn toes i greu bwydydd ar gyfer parti. Mae ymarferwyr yn annog y plant i fwyta ac yfed yn iachus.

Mae ymarferwyr yn defnyddio ystod o arsylwadau effeithiol i adnabod y cam nesaf yn natblygiad y plant lywio eu cynllunio. Maent yn datblygu eu gallu i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn fwy bwriadus er mwyn sicrhau bod y plant yn gwneud cynnydd dros amser.

Mae'r ddarpariaeth dan do ac awyr agored wedi'i chynllunio'n ofalus, gyda chyfleoedd cyffroes i blant archwilio ac arbrofi, gan eu galluogi i wneud dewisiadau annibynnol, a symud yn hyderus rhwng gweithgareddau. Mae ymarferwyr yn darparu profiadau sy'n hyrwyddo creadigrwydd, lles a medrau cyfathrebu rhan fwyaf o blant yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn herio'r plant i arbrofi gyda chymysgu paent i greu lliwiau newydd, a'u hannog i ystyried effaith ychwanegu dŵr i dywod wrth adeiladu cestyll tywod. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn datblygu eu hyder ac yn barod i fentro wrth ymgymryd â gweithgareddau newydd.

Trwy fodelu'r Gymraeg yn gyson yn ystod gweithgareddau dyddiol mae ymarferwyr yn rhoi pwyslais cryf ar gyfoethogi medrau llafar a mwynhad plant tuag at lyfrau. O ganlyniad, mae llawer o blant yn dangos dealltwriaeth cynnar wrth ailadrodd ymadroddion cyfarwydd ag hyder, ac yn dewis eu hoff straeon yn annibynnol. Yn ogystal, mae ymarferwyr yn gosod adnoddau yn briodol ar lefel isel er mwyn annog dewis annibynnol yn yr amgylchedd. Maent yn annog y plant i ddatblygu a dyfalbarhau gyda'u medrau annibynnol wrth geisio agor pot iogwrt ac wrth dywallt diod. Mae traddodiadau a dathliadau Cymru yn cael eu hyrwyddo'n fwriadus fel rhan naturiol o'r ddarpariaeth. Trwy hyn, mae plant yn datblygu eu hymwybyddiaeth o berthyn i'r gymuned leol ac i Gymru.

Mae ymarferwyr yn cefnogi datblygiad y plant yn effeithiol trwy sgwrsio yn ystyrlon a chreu cyfleoedd iddynt ymateb trwy ddefnyddio brawddegau sy'n gynyddol estynedig. Ar y cyfan, mae ymarferwyr yn darparu profiadau addas i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i blant ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r byd ehangach, a ddiwylliannau a chefndiroedd amrywiol.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd pwrpasol i blant archwilio, ac arbrofi gyda gweithgareddau amrywiol. O ganlyniad, mae llawer o blant yn datblygu ei dealltwriaeth cynnar o rif gyda hyder ac yn mwynhau ystod eang o gyfleodd i wneud marciau wrth ddefnyddio amrywiaeth o offer ysgrifennu. Maent yn datblygu eu medrau corfforol drwy wibio ar feiciau o amgylch y iard a chydweithio i greu llwybr cydbwyso.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth: Da

Mae arweinwyr wedi cydweithio i greu a rhannu gweledigaeth gadarn sy'n seiliedig ar ddarparu amgylchedd gofalgar, difyr ac ysgogol i'r holl blant. Mae ganddynt ethos cryf o waith tîm, lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent yn cydweithio'n effeithiol ac yn cefnogi ei gilydd yn dda, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at rediad effeithiol y lleoliad.

Mae arweinwyr yn datblygu prosesau hunanwerthuso priodol ac yn gweithio tuag at sefydlu diwylliant o welliant parhaus. Maent yn cydweithio'n effeithiol ag asiantaethau, ac yn dechrau ystyried ystod o safbwyntiau partneriaid i adnabod cryfderau a meysydd datblygu'r lleoliad. O ganlyniad, maent yn cychwyn cynllunio ar gyfer gwelliant mewn dull mwy systematig a phwrpasol.

Mae arweinwyr yn defnyddio cyllid, gan gynnwys grantiau perthnasol, yn ddoeth, i gefnogi blaenoriaethau'r lleoliad. Er enghraifft, maent wedi buddsoddi'n bwrpasol mewn adnoddau fel ardal gerddoriaeth, beiciau cydbwysedd a chegin fwd sy'n cyfoethogi profiadau'r plant ac yn cefnogi agweddau allweddol o'u datblygiad yn effeithiol.

Mae gan arweinwyr brosesau sefydlu cadarn, sy'n cynnwys hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant ychwanegol sy'n ymateb yn briodol i anghenion ymarferwyr a phlant. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n dda ac yn cefnogi datblygiad proffesiynol ei gilydd yn effeithiol. Er hyn, nid yw'r cyfarfodydd goruchwylio a gwerthuso staff yn ddigon ffurfiol nac yn sicrhau cyfleodd rheolaidd i ymarferwyr drafod eu dyheadau a'u pryderon yn gyfrinachol.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr ddiwylliant cryf o ddiogelu ac maent yn rhoi blaenoriaeth uchel i ddiogelwch a lles plant. Maent yn gweithredu trefniadau effeithiol a chadarn i reoli mynediad i'r safle, sicrhau bod y safle'n ddiogel a dilyn gweithdrefnau hylendid trylwyr. Mae arweinwyr yn gweithredu systemau recriwtio diogel. Mae'r holl ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant diogelu plant ac yn deall eu cyfrifoldebau a'r gweithdrefnau cywir i ddilyn pe bai ganddynt bryder am blentyn. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel, croesawgar a threfnus sy'n cefnogi lles a datblygiad y plant yn effeithiol. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o'r gofod a'r cyfleusterau sydd ar gael. Mae arweinwyr yn darparu offer addas ac ystod eang o adnoddau o ansawdd da sy'n hygyrch i blant. Maent yn cynnal ymarferion tân rheolaidd ac yn sicrhau bod gweithdrefnau a threfniadau diogelwch perthnasol yn gyfredol. O ganlyniad, mae plant yn elwa ar amgylchedd lle roddir blaenoriaeth glir i'w diogelwch a'u lles.

Mae'r ddarpariaeth fugeiliol yn gryf. Mae arweinwyr yn meithrin perthynas gadarnhaol â rhieni a gofalwyr, ac yn cydweithio'n briodol gydag asiantaethau arbenigol i gefnogi iechyd, lles a datblygiad y plant. Rhennir gwybodaeth ddefnyddiol gyda rhieni drwy sgyrsiau anffurfiol a systemau digidol, ac mae arweinwyr yn cysylltu'n effeithiol â gwasanaethau lleferydd ac ADY pan fo angen cymorth. Mae'r cysylltiadau buddiol â'r gymuned leol yn cynnig cyfleoedd i'r plant i feithrin ymdeimlad cryf o berthyn. Yn ogystal, mae partneriaethau trosglwyddo cryf gyda'r ysgol ar y safle ac ysgolion lleol eraill yn helpu'r plant i symud ymlaen yn hyderus i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt:

Rhagorol	Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau
Gwael	Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Prysg (Cymraeg i Saesneg).

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/11/2026